



COD YMDDYGIAD CAMBRIA

Rydym eisiau i chi fwynhau eich amser yn y coleg; i fod yn ddiogel, i gael eich parchu gan eraill a chael eich gwerthfawrogi. Beth bynnag yr ydych chi'n ei wneud: yn dysgu yn y dosbarth, yn sgwrsio efo ffrindiau, yn cerdded o amgylch y coleg, yn mynd ar daith, ar fws y coleg neu hyd yn oed yn siarad â myfyrwyr eraill ar wefannau cyfryngau cymdeithasol; **lle bynnag yr ydych chi, rydych chi'n fyfyrwr Coleg Cambria ac rydym yn disgwyl i chi ymddwyn mewn modd parchus tuag at y coleg ac eraill.**



YN GWRTAIS AC YN OFALGAR

Dathlu bod pobl yn wahanol i chi ac efallai'n gweld pethau'n wahanol.

Bod yn gwrtais ac yn gyfeillgar bob amser tuag at fyfyrwyr eraill, staff ac ymwelwyr.

Ystyried teimladau eraill am yr hyn yr ydych chi yn ei ddweud a'i wneud.



YN BARCHUS TUAG AT ERAILL AC AMGYLCHFYD Y COLEG

Gofalu am gyfleusterau ac offer ein coleg.

Defnyddio biniau'r coleg bob tro gan ailgylchu pan fedrwrch chi.

Dilyn rheolau'r coleg.

Dylid ysmegu neu ddefnyddio e-sigarennau yn yr ardaloedd ysmegu dynodedig yn unig.



YN GYFLOGADWY

Mynychu pob gwers.

Cyrraedd gwersi ar amser, gyda'r holl offer sydd ei angen arnoch i fod yn barod i ddysgu.

Defnyddio iaith addas (dim rhegi). Mae hyn yn cynnwys ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol.

Gwisgo'n addas ar gyfer eich cwrs a'ch dysgu.



YN RHOI DIOGELWCH YN GYNTAF

Dylech ddilyn unrhyw reolau ynghylch sut i ymddwyn mewn dosbarthiadau a gweithdai.

Diffoddwch ffonau symudol (oni cewch gyfarwyddyd fel arall).

Peidiwch â bwyta nag yfed (ac eithrio dŵr) mewn unrhyw ddsbarth neu weithdy.



YN AWYDDUS I DDYSGU

Gweithio'n galed hyd eithaf eich gallu.

Bod ag agwedd bositif a brwdfrydig.

Cyflwyno gwaith ar amser gan ddilyn y rheolau llym ynghylch llên-ladrad (copïo gwaith eraill).



YMDRECHU I FOD Y GORAU

Cymryd mantais o bob cyfle.

Peidiwch byth â setlo am 'ddigon da'.

Cael ffydd a hyder ynoch chi eich hun.

Gofyn am gyngor pan fo angen.



Bydd torri'r rheolau hyn yn arwain at gamau disgyblu cyflym lle byddwn efallai yn gofyn i chi adael y coleg:



Peidiwch â dod ag alcohol neu sylweddau anghyfreithiol gyda chi i'r coleg, neu fod o dan ddylanwad y rhain tra byddwch yn y coleg neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allanol.

Peidiwch â dod a chyllyll, oni bai bod angen rhain arnoch ar gyfer eich cwrs, neu unrhyw beth y gellir ei ddefnyddio fel arf ymosodol, gyda chi i'r coleg neu ar gludiant y coleg.

Peidiwch ag ymladd, bod yn ymosodol, bwlio, aflonyddu, bygwth neu godi ofn ar eraill mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, ebyst, negeseuon testun a galwadau ffôn.